Theatr Clwyd



# Dirprwy Gweithdy

# Recruitment Pack

# Croeso

Rydym yn falch iawn o'r gwaith anhygoel sydd wedi'i wneud yn Theatr Clwyd yn ei 44 mlynedd o hanes ac rydym wrth ein bodd eich bod yn ystyried ymuno â'n cwmni.

Mae'n gyfnod cyffrous i ymuno â'r tîm wrth i ni ddechrau ar ein gwaith ailddatblygu cyfalaf, gyda'r gwaith i fod i ddechrau yn 2022. Byddwn yn trawsnewid ein cartref i fod yn ganolbwynt i'r gymuned, gyda chanolfan ieuenctid bwrpasol, gofod iechyd a lles ac ardaloedd i gefnogi ein timau creu theatr anhygoel gan sicrhau bod Theatr Clwyd yma ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, a'n bod yn ymdrechu tuag at ein cenhadaeth ym mhopeth a wnawn – *Gwneud y byd yn lle hapusach, un ennyd ar y tro.*

Gobeithio eich bod wedi cyffroi am gael gwybod mwy am y swydd wag hon ac rydym yn edrych ymlaen at gwrdd â chi.

Dymuniadau gorau

**Tamara Harvey**
Cyfarwyddwr Artistig

**Liam Evans-Ford**
Cyfarwyddwr Gweithredol






# Amdanom ni

Mae Theatr Clwyd yn hwb diwylliannol sy'n cynhyrchu theatr o safon byd ym mryniau Gogledd Cymru. Ers 1976 rydym wedi bod yn gwasanaethu ein cymunedau ac yn darparu profiadau theatr a chelfyddydol o'r safon uchaf i bobl Gogledd Cymru a thu hwnt.

Mae ein cenhadaeth yn gynyddol bwysig i ni ym mhopeth a wnawn.

*Gwneud y byd yn lle hapusach, un ennyd ar y tro.*

Rydym yn ddigon ffodus i fod yn un o’r ychydig iawn o theatrau yn y DU sy’n adeiladu setiau, gwneud gwisgoedd, paentio golygfeydd a chreu props yn fewnol. Mae'r sgiliau creu theatr hanfodol yma’n sicrhau ein bod yn gallu gwthio ffiniau theatrig i greu sioeau trawiadol o hedyn yn nychymyg yr awdur. Ers 2018, mae hyn wedi cael ei gydnabod gan y diwydiant theatr gyda gwobrau UK Theatre, The Stage ac Olivier.

Mae datblygu crëwyr theatr yn ein cymuned yn allweddol i gynnal sector diwylliannol Cymru a’r DU. Mae gennym ofod ar gyfer awduron a chwmnïau sy'n plethu â phrentisiaethau technegol a chyfarwyddwyr dan hyfforddiant i greu adeilad sy'n cefnogi pobl greadigol i ddatblygu rhagoriaeth artistig.

Rydym yn defnyddio ein sgiliau fel sail i drawsnewid cymdeithasol yn ein cymunedau. Rydym yn mynd i'r afael yn greadigol â heriau cymdeithasol ac addysgol fel cyfiawnder ieuenctid gan hefyd bontio rhaniadau cymdeithasol ac economaidd. Rydym yn cydnabod yr effaith uniongyrchol a'r manteision hirdymor y gall y celfyddydau eu darparu i gynorthwyo gyda lles seicolegol a chorfforol. Rydym yn cydweithio â bwrdd iechyd mwyaf y GIG yng Nghymru a'r gwasanaethau cymdeithasol lleol i ymateb i'r heriau sy'n wynebu iechyd a gofal cymdeithasol drwy gefnogi ein cymunedau.

Mae gennym drosiant blynyddol diweddar o tua £7m ac rydym yn cael ein cyllido gan gyfuniad o Gyngor Celfyddydau Cymru, Cyngor Sir y Fflint, gwerthiant tocynnau’r swyddfa docynnau, incwm masnachol a chodi arian gan unigolion, ymddiriedolaethau a mudiadau a nawdd corfforaethol.

# Disgrifiad Swydd

| | |
|---|---|
| Math o Gontract: | **Parhaol** |
| Oriau: | **37 awr yr wythnos** |
| Gradd: | **TC03** |
| Cyflog: | **£23,311 - £26,251 pro rata** |
| Tîm: | **Cynhyrchru** |
| Yn atebol i: | **Rheolwr Gweithdai** |
| Yn gyfrifol am: | **Supervision of Workshop Assistants, casual and freelance staff.** |

**Pwrpas y Rôl**

Gweithio fel rhan o dîm y Gweithdy Adeiladu Golygfeydd yn yr Adran Gynhyrchu, gydag arbenigedd mewn adeiladu setiau, gan ddarparu gwasanaeth o'r safon uchaf bosib i gynyrchiadau Theatr Clwyd. Gan weithio'n bennaf yn ardal y Gweithdy, bydd ef / hi yn gweithio ar adegau ochr yn ochr â chydweithwyr mewn ardaloedd eraill yn yr Adran Gynhyrchu.

**Dyletswyddau a Chyfrifoldebau**

- Goruchwylio Cynorthwywyr Gweithdy, staff achlysurol a llawrydd a chydlynu'r gweithdy, gan roi gwybod i Reolwr y Gweithdy ynghylch cynnydd y gwaith.
- Ar y cyd â Rheolwr y Gweithdy, cynllunio a rheoli llif gwaith yr adran ac arwain y tîm yn ystod gwaith adeiladu, ffitio, symud allan, tynnu setiau i lawr yn ôl yr angen, gan sicrhau amgylchedd gwaith diogel a chydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol sy'n ymwneud â gweithle diwydiannol (gan gynnwys PUWER, COSHH, LOLER).
- Dirprwyo ar ran a rheoli'r adran yn absenoldeb Rheolwr y Gweithdy.
- Ar y cyd â Rheolwr y Gweithdy, bod yn gyfrifol am amgylchedd gwaith glân, taclus a threfnus ac ysgwyddo cyfrifoldeb arbennig am gadw tŷ yn y gweithdy.
- Archebu deunyddiau a gwasanaethau ac yn absenoldeb Rheolwr y Gweithdy, cysylltu â'r Rheolwr Cynhyrchu a'r Pennaeth Cynhyrchu ar gyllidebau cynhyrchu ac adrannau.
- O dan reolaeth Rheolwr y Gweithdy, bod yn gyfrifol am adeiladu setiau, props neu unrhyw eitem gynhyrchu yn ôl y gofyn, i'r safon uchaf bosib ac o fewn yr amser a'r gyllideb a neilltuir.
- Ochr yn ochr â Rheolwr y Gweithdy, rhoi'r holl wybodaeth ymarferol angenrheidiol i gynllunwyr.
- Cynorthwyo yn ystod wythnosau ffitio a chynhyrchu i sicrhau eu bod yn rhedeg yn esmwyth.
- Gwneud gwaith ymarferol mewn perthynas â symud i mewn, gosod, tynnu'r set i lawr a symud allan, gan gynnwys cydosod, rigio, addasu a defnyddio golygfeydd, props, offer rigio a chodi.
- Goruchwylio staff achlysurol yn ôl yr angen.
- Gweithio gyda Rheolwr y Gweithdy i sicrhau hyfforddiant a monitro perfformiad Cynorthwywyr y Gweithdy a staff achlysurol a llawrydd.
- Dehongli cynlluniau a dyluniadau paratoi a darluniau gwaith, gan ddefnyddio CAD a rhaglenni eraill.
- Canfod ac archebu stoc ac eitemau traul. Sicrhau bod Rheolwr y Gweithdy yn ymwybodol os oes angen llogi neu brynu unrhyw offer arbenigol.
- Gweithio o fewn cyllidebau penodol.
- Lle bo angen, darparu cymorth technegol i ddefnyddwyr allanol.
- Cysylltu â'r Artist Golygfeydd i sicrhau bod yr adran yn gweithredu'n effeithiol ac yn effeithlon drwy gydol y broses adeiladu, sy'n cynnwys y gwaith adeiladu a golygfaol.
- Mynychu cyfarfodydd yn ôl yr angen a chynrychioli'r adran yn absenoldeb Rheolwr y Gweithdy.

**Iechyd a Diogelwch**

- Sicrhau bod yr holl ofynion Iechyd a Diogelwch yn cael eu bodloni bob amser wrth weithio.
- Mynychu hyfforddiant yn ôl yr angen a chynnal ymwybyddiaeth o reoliadau Iechyd a Diogelwch sy'n benodol i'r lleoedd, y peiriannau a'r offer a ddefnyddir.
- Sicrhau bod yr holl offer arbenigol yn cael ei gau i lawr yn gywir ar ddiwedd pob diwrnod gwaith.
- Sicrhau bod yr holl beryglon posib yn cael eu gwneud yn ddiogel cyn gynted â sy'n ymarferol bosibl.
- Cynhyrchu asesiadau risg a datganiadau dull yn ôl yr angen.

**Arall**

• Sicrhau bod yr holl offer yn cael ei storio'n ddiogel a'i fod yn hygyrch i ddefnyddwyr awdurdodedig.
• Ochr yn ochr â Rheolwr y Gweithdy, sicrhau rhestr o'r holl offer a'r deunyddiau sy'n cael eu cadw a'u defnyddio.
• Darparu unrhyw ddyletswyddau eraill fel sy'n ofynnol yn rhesymol gan y Rheolwr Gweithdy, y Rheolwr Cynhyrchu neu'r Cyfarwyddwr Cynhyrchu.



# Ydych chi'n rhywun gyda...?

**Hanfodol**

- Profiad ymarferol perthnasol yn gweithio ym maes adeiladu, gwaith coed a / neu waith metel, yn ddelfrydol mewn amgylchedd theatr.
- Profiad clir o oruchwylio, arwain a chymell timau.
- Profiad cadarn, clir mewn adeiladu a gwaith coed.
- Profiad cadarn, clir mewn weldio a gwaith metel.
- Gallu defnyddio ystod eang o offer a pheiriannau gweithdy yn ddiogel ac yn hyderus.
- Gallu defnyddio ystod eang o offer pŵer cludadwy ac offer llaw yn ddiogel ac yn hyderus.
- Gwybodaeth weithredol am ddulliau rigio a defnyddio gêr codi yn ddiogel.
- Profiad o sefydlu a rigio golygfeydd a systemau decio llwyfan.
- Profiad o greu a dehongli cynlluniau a darluniau adeiladu.
- Gallu clir i baratoi cynlluniau a darluniau gwaith, gyda gwybodaeth am CAD a rhaglenni eraill.
- Sgiliau rhyngbersonol rhagorol, gyda'r gallu i gyfathrebu'n glir ac yn gyson â holl ddefnyddwyr gofod y theatr a'r digwyddiad, yn enwedig defnyddwyr annhechnegol.
- Dull trefnus o weithio, gydag enw da clir am gadw at derfynau amser a rheoli blaenoriaethau sy'n gwrthdaro.
- Profiad o weithredu gofynion Iechyd a Diogelwch ac asesiadau risg.
- Hyder i weithio'n annibynnol, ond hefyd parodrwydd i gydweithio ar draws llawer o adrannau.
- Gallu gweithio oriau hyblyg ac anghymdeithasol gan gynnwys gyda'r nos a rhai penwythnosau.
- Trwydded yrru lân, lawn.

**Dymunol**

- Profiad a gwybodaeth am gynhyrchu theatr prif ffrwd yn y DU.
- Tystysgrif tryc fforch godi gyfredol.
- Hyfforddiant mewn trin maniwal, defnyddio ystolion yn ddiogel a gweithio ar uchder.
- Tystysgrif cymorth cyntaf gyfredol.
- Cymraeg ysgrifenedig a llafar.

**Eich Tîm**

Pwrpas yr Adran Gynhyrchu yw creu a gweithredu i'r safonau uchaf bob agwedd ar gynyrchiadau Theatr Clwyd a phrosiectau cysylltiedig, mewn partneriaeth â chyfarwyddwyr, cynllunwyr ac arweinwyr prosiectau. Mae'r adran yn gyfrifol am sicrhau bod timau creadigol yn cyflawni eu gweledigaeth artistig o fewn amserlenni a chyllidebau y cytunwyd arnynt.

# Y Broses Recriwtio

Dolen i ymgeisio: CLICIWCH YMA
Dyddiad cau: **Hanner Dydd, Dydd Llun 31ain Ionawr 2022**

**Manteision i Aelodau'r Cwmni**

- Tocynnau am ddim ar gyfer sioeau a digwyddiadau Theatr Clwyd, yn amodol ar argaeledd a pholisi
- Gostyngiadau ym mar, caffi a siop anrhegion y theatr
- Cynllun pensiwn gyda NEST
- 32 diwrnod o wyliau blynyddol (gan gynnwys gwyliau banc), pro rata, gan gynyddu gyda hyd gwasanaeth
- Rhaglen Lesiant fewnol
- Mynediad at Iechyd Galwedigaethol
- Rydym hefyd yn aelod o’r sefydliad Rhieni a Gofalwyr yn y Celfyddydau Perfformio (PiPA)

**Cyfleoedd Cyfartal**

Rydym eisiau i'n cwmni fod yn gynrychioliadol o bob rhan o gymdeithas a chroesawu ceisiadau gan bawb.

Credwn fod amrywiaeth yn ymwneud â dathlu a gwerthfawrogi unigolion. Mae gennym ddull cyfle cyfartal o weithredu ac rydym yn anelu at roi cyfle i bawb gyflawni eu potensial.

Byddem yn ddiolchgar pe gallech gwblhau ein harolwg Cyfleoedd Cyfartal.

Byddem wrth ein bodd yn clywed gennych chi ym mha ffordd bynnag sy'n teimlo fwyaf priodol i chi.

Os hoffech gael mynediad i'r pecyn cais hwn neu gyflwyno'ch cais mewn fformat arall, byddem yn hapus i siarad â chi am eich anghenion.

Cysylltwch â ni ar 01352 344101 neu people@theatrclwyd.com i drafod ymhellach

Mae Theatr Clwyd yn cydnabod bod y gallu i gyfathrebu yn y Gymraeg yn sgil bwysig a gwerthfawr yn y gweithle ac mae wedi ymrwymo i gynyddu nifer ei chyflogeion dwyieithog. Rydym yn croesawu ceisiadau am unrhyw swydd gan ymgeiswyr sy'n gallu gweithio yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Byddwn yn cysylltu â phob ymgeisydd aflwyddiannus i ddweud wrthynt nad ydynt wedi cyrraedd y rhestr fer i'w cyfweld.

Gwneir pob penodiad yn amodol ar eirdaon boddhaol a thystiolaeth o gymhwysedd i weithio yn y DU.



# Cysylltu?

I gael rhagor o wybodaeth neu sgwrs anffurfiol am y rôl hon, cysylltwch â

**Steve Eccleson**
Rheolwr Gweithdai

steve.eccleson@theatrclwyd.com

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Cyngor Sir y Fflint
Flintshire County Council